**CFA21 Dyfodol i'r Iaith**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Dyfodol i'r Iaith | Evidence from: Dyfodol i'r Iaith

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

**Diffyg niferoedd**

Oherwydd diffyg niferoedd siaradwyr Cymraeg a dulliau canfod siaradwyr Cymraeg mae diffyg cyfleoedd i siarad y Gymraeg yn y gymuned ac yn y gweithle. O ganlyniad mae'r Saesneg yn tra arglwyddiaethu ac yn norm cymunedol ac mewn gweithleoedd.

**Sut mae ennyn hyder a brwdfrydedd**

Tra bod lleiafrif o siaradwyr Cymraeg yn poeni am ddyfodol yr iaith ac yn gweithredu o'i phlaid, mae nifer yn parhau i fod braidd yn ddi-fater, neu'n perthyn i'r grŵp mwyafrifol sy'n defnyddio'r iaith sy'n amlwg yn brif iaith pau ieithyddol. Mae angen meithrin hyder a balchder ymysg trwch y siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur posibl.

**Diffyg defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau poblogaidd**

Mae gwaith gwych Cymdeithas Pêl Droed Cymru yn cynnig arweiniad i'r hyn sydd yn bosibl trwy ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac i ddylanwadu ar eraill yr un pryd. Gwaetha'r modd, mae cryn waith i'w wneud i gael clybiau chwaraeon lleol, a sefydliadau eraill i ddefnyddio rhagor o Gymraeg. Nid yw'r Gymraeg yn cael ei harfer mewn digon o fannau cymdeithasu, e.e. tafarnau a chlybiau, felly nid yw'r Gymraeg yn dod yn norm.

**Diffyg Cymraeg gweladwy**

Mater arall yw diffyg Cymraeg gweladwy ar y stryd fawr, mewn busnesau, tai bwyta a siopau, sy'n cael eu mynychu'n ddyddiol. Y Saesneg eto yw'r norm, ac ni bydd hyn yn newid nes bod modd i siaradwyr Cymraeg weld bod y Gymraeg yn gallu bod yn norm.

**Diffyg gwybodaeth am bwy sy'n siarad Cymraeg**

Er bod rhai'n gwisgo bathodynnau sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg, lleiafrif sy'n gwneud hyn mewn mannau cymdeithasu poblogaidd, ac nid oes modd hawdd i siaradwyr Cymraeg wybod pwy arall sy'n siarad yr iaith.

**Diffyg Cymraeg ar yr aelwyd**

Mae defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd yn dylanwadu'n fawr ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg. Nid oes digon wedi'i wneud i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ar aelwydydd, mae'n amlwg.

**Y Saesneg yn tra rheoli cyfryngau cymdeithasol**

Y Saesneg yw prif iaith y cyfryngau cymdeithasol poblogaidd i'r rhan fwyaf o'u defnyddwyr. Mae hyn, ynghyd â phoblogrwydd y diwylliant torfol Eingl- Americanaidd, yn rhwym o filwrio yn erbyn defnyddio'r Gymraeg.

**Cyfarch yn Gymraeg**

Nid un diwrnod "Shw mae?" "Sut Mae?" sydd ei angen, ond yn hytrach annog pob un sydd yn siarad Cymraeg i ddefnyddio'r cyfarchiad hwnnw wrth gyfarfod dieithriaid. Byddai hyn yn sefydlu'r agwedd mai dyma'r iaith naturiol a'n dymuniad i'w defnyddio. Y gamp yw newid y meddylfryd mai'r Saesneg yw'r "norm".

**Iaith gyda sefydliadau swyddogol**

Nid y mater pennaf yw hyn: teimlwn fod Safonau'r Gymraeg wedi rhoi gormod o sylw i hyn ar draul amodau defnyddio iaith bob dydd. Mater arall felly yw defnyddio'r iaith wrth ysgrifennu at sefydliadau swyddogol, sy'n galw am lefel uwch o hyder ieithyddol. Gall y cwricwlwm newydd godi'r hyder hwn, o bosib'.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

**Canolfannau Cymraeg**

Mae'r Canolfannau Cymraeg a sefydlwyd trwy frwdfrydedd trigolion wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Heb Ganolfan Soar ym Merthyr Tudful, Tŷ Tawe yn Abertawe, Clwb y Bont ym Mhontypridd ac eraill, byddai'r Gymraeg heb ofod yn y trefi hyn. Mae gweithgareddau niferus yn digwydd yn y mannau hyn, gan gynnwys siop Gymraeg, boreau coffi, clybiau gwerin, corau, gigiau i bobl ifanc, a llu o ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill. Nid yw'r Canolfannau hyn yn cyrraedd pawb, ond hebddynt byddai bwlch enfawr.

**Gofodau eraill, caffis a thafarnau**

Lle nad oes Canolfan Gymraeg benodol, mae cael gofod neu adeilad, neu gaffi neu dafarn lle mae gweithgareddau Cymraeg yn crynhoi'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddod at ei gilydd.

**Gweithleoedd**

Mewn gweithleoedd dylid defnyddio pecyn 'Iaith Gwaith' Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chymell aelodau'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio lanyard 'siaradwr Cymraeg' neu 'ddysgwr Cymraeg'. Yn yr un modd dylai derbynfeydd a swyddfeydd cyhoeddus fod yn arddangos arwyddion desg a sticeri 'Iaith Gwaith' er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliadau hyn.

**Sefydliadau'r stryd fawr**

Mae angen i siopau, tafarnau, caffis, mannau trin gwallt ac ewinedd, ddangos mewn ffenestri os oes modd defnyddio'r Gymraeg yn eu sefydliadau, a dangos eu bod yn croesawu hyn. Byddai estyn defnydd cyffredin o'r lanyard i weithwyr y mannau hyn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae angen annog gweithwyr y sefydliadau hyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf wrth gyfarch cwsmeriaid.

**Digwyddiadau cyhoeddus**

Mewn digwyddiadau cyhoeddus o bob math dylai cyrff sector cyhoeddus roi cyfarchiadau agoriadol dwyieithog ac estyn gwahoddiad i fynychwyr gyfrannu yn y Gymraeg. Byddai hynny yn gosod cywair a chyd-destun lle byddai siaradwyr Cymraeg yn fwy parod I'w defnyddio. Hefyd mae angen galluogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a darparwyr cyrsiau Cymraeg i roi pwyslais newydd ar gynnal digwyddiadau cymunedol i annog mwy i fwrw ati i ddysgu'r Gymraeg.

**Defnydd o ysgolion**

Gallai Ysgolion i fod yn ganolfannau digwyddiadau a chymdeithasu beunyddiol i fwrlwm o weithgaredd Cymraeg gan sbarduno diddordeb pellach ymhlith rhieni di-Gymraeg sydd wedi dewis rhoi eu plant trwy'r system addysg Gymraeg.

**Ehangu addysg Gymraeg**

Mae angen ymrwymiad gan y Llywodraeth mai ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog yn unig a grëir yn y dyfodol os am geisio anelu at gyflawni'r targedau twf. Nid felly mohoni ar hyn o bryd. E.e. cyhoeddwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yr agorir ysgol uwchradd Cymraeg newydd yn y sir ond caiff ysgol gynradd Gymraeg/ddwyieithog cyfagos ei throi yn ysgol cyfrwng Saesneg. Araf deg tu hwnt yw twf addysg Gymraeg ac o ganlyniad nid yw 80% o ddisgyblion Cymru yn gadael y gyfundrefn addysg yn gallu siarad Cymraeg.

**Manteision dwyieithrwydd**

Mae angen cynlluniau ar lawr gwlad sy'n adlewyrchu heriau penodol er mwyn newid agweddau rhai, annog eraill i ail afael yn eu Cymraeg ac i sylweddoli manteision dybryd bod yn ddwyieithog. Mae rôl yma i Fentrau iaith ar lawr gwlad ond maent angen llawer mwy o adnoddau ariannol a phersonél i geisio taclo'r sefyllfa. Gall y Llywodraeth hefyd gomisiynu a chynnal ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o dreftadaeth dinesig Cymreig a gosod dwyieithrwydd

mewn cyd-destun Ewropeaidd a byd-eang. Rydym yn parhau o hyd i fod yn rhy glos at feddylfryd Seisnig a Prydeinig.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

**Chwaraeon**

Mae rhaglenni chwaraeon a diwylliant poblogaidd i bobl ifanc trwy Wasanaethau Ieuenctid, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, clybiau chwaraeon a Mentrau Iaith yn creu diddordeb a chyfleoedd cymdeithasol o'r newydd i ddisgyblion a phobl ifanc fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i Fentrau Iaith fabwysiadu gweithgareddau sy'n arwain at godi hyder y siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur a deall ei bod yn fwy na dull cyfathrebu yn unig. Mae cyhoeddiadau Cymraeg mewn rhai meysydd pêl-droed a rygbi'n gymorth i roi lle i'r iaith, ac mae llawer o bosibiliadau i gynyddu hyn ar draws y wlad.

**Gwyliau cerddoriaeth**

Mae Tafwyl yng Nghaerdydd yn enghraifft amlwg o ŵyl gerddoriaeth Gymraeg sy'n denu miloedd. Mae gwyliau llai yn cael eu cynnal mewn gwahanol, e.e. y Barri ac Abertawe. Mae digwyddiadau torfol o'r fath yn denu siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg ac yn cyflwyno llawer i fyd diwylliannol Cymru

**Eisteddfodau a chystadlaethau'r Urdd**

Gwyddom fod cyrff fel Yr Urdd yn creu bwrlwm mawr o ran cyfleoedd chwaraeon a chystadlu mewn Eisteddfodau. Mae eisteddfodau cylch a sir yn denu cannoedd at y Gymraeg. Yn yr un modd mae cystadlaethau chwaraeon yn denu pobl ifanc i fwynhau mewn awyrgylch lle gall y Gymraeg fod yn brif iaith. Mae angen mapio'r cyfleoedd i gynnal mwy o'r gweithgareddau hyn yn ardal yr Eisteddfod er mwyn dangos fod y Gymraeg yn perthyn i fywyd tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

**Digwyddiadau i ddysgwyr**

Mae llu o foreau / prynhawniau coffi'n digwydd sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr siarad yr iaith. Mae'r rhain yn digwydd ledled y de, Mae angen cyhoeddusrwydd teilwng i oedolion (a teuluoedd) o ddysgwyr a mewnfudwyr sydd wedi anwesu'r Gymraeg. Gwelir enghreifftiau o'r bobl hyn yn gyson ar y we ac mewn cylchgronau Cymraeg. Yn ei dro, mae potensial i sbarduno eraill i ddilyn eu hesiampl a thanlinellu lle arbennig ein hiaith a'n diwylliant ym meddyliau y Cymry Cymraeg.

**Corau**

Mae nifer helaeth o gorau mewn ardaloedd llai Cymraeg Cymru. Mae rhai corau Cymraeg hynod lwyddiannus wedi cychwyn, yn enwedig yng nghylch Caerdydd. Lle nad oes modd cael corau

Cymraeg mewn ardal, mae annog corau Cymreig, lle ceir swm helaeth o ganu Cymraeg, yn fodd o ddenu siaradwyr a dysgwyr at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith.

**Dosbarthiadau a gweithgareddau diddordeb**

Mae dosbarthiadau diddordeb, boed yn llenyddol, hanesyddol, teithiau cerdded, arlunio, yn fodd o sbarduno'r defnydd o'r Gymraeg. Mae enghreifftiau llwyddiannus o'r rhain mewn llawer o siroedd.

**Creu gweithleoedd Cymraeg**

Mae gweithleoedd Cymraeg yn gallu bod yn brin yn yr ardaloedd hyn. Ysgolion Cymraeg sy'n rhoi'r cyfle gorau i greu gweithleoedd Cymraeg ar hyn o bryd.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

**Twf yn ystod y pandemig**

Yn ystod y pandemig, trosglwyddodd y Mentrau iaith, a Dysgu Cymraeg i Oedolion i weithredu ar-lein ac felly hefyd yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd. Arweiniodd hynny ar fwrlwm o Gymraeg ar-lein a thwf rhyfeddol yn y niferoedd ymrestrodd ar gyrsiau dysgu Cymraeg fel duolingo a SaysomethinginWelsh. Mae angen ystyried sut mae modd manteisio ar y profiad hwnnw er mwyn gweld beth gall y Mentrau Iaith ei wneud o hyd ac i'r dyfodol.

**Defnydd gweledol a chlywedol ar y stryd fawr**

Mae angen cynyddu defnydd gweledol a chlywedol o'r Gymraeg trwy dechnoleg e.e. cyhoeddiadau sain mewn archfarchnadoedd megis Lidl ac Aldi a Swyddfa'r Post. Felly hefyd gyda pheiriannau ATM sy'n rhoi dewis iaith i gwsmeriaid ac mewn siopau bwyd hunan-wasanaeth.

**Llwyfannau cymdeithasol**

Mae'r rhan fwyaf o lwyfannau cymdeithasol digidol yn defnyddio'r Saesneg yn bennaf, megis Instagram, Tik-tok, nes ei bod yn anodd i'r Gymraeg gael troedle ar y rhain. Mae gemau cyfrifiadurol ar y cyfan yn Saesneg yn unig. Byddai'n dda datblygu presenoldeb y Gymraeg yn y rhain.

**Podlediadau**

Deallwn fod niferoedd gwylwyr S4C ar Clic a BBCiPlayer wedi cynyddu sydd eto yn tanlinellu pwysigrwydd darpariaeth a chynnwys Cymraeg ar-lein ond byddai'n dda hefyd gweld oes modd cynyddu arlwy Podlediadau Cymraeg a dwyieithog er mwyn denu cynulleidfaoedd o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

**Creu diddordeb**

Credwn mai gwaddol pennaf digwyddiadau o'r fath yw creu diddordeb a chynyddu momentwm o'r newydd mewn dysgu a defnyddio'r Gymraeg gan dynnu ar siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r di-Gymraeg fel ei gilydd i gyfrannu at y cyffro hwnnw. Mae'r flwyddyn neu ddwy o baratoi ar gyfer yr Eisteddfod yn rhoi cyfle arbennig i ddatblygu gweithgareddau Cymraeg mewn ardal.

**Gadael gwaddol**

Byddai'n dda i'r Eisteddfod anelu at ddarparu'n gadarnhaol at barhad y gweithgareddau hyn yn yr ardaloedd lle caiff ei chynnal. Enghraifft yw bod ymgyrch Canolfan Gymraeg Abertawe wedi ei lansio yn ystod yr Eisteddfod. Nid gweithgaredd yr Eisteddfod oedd hyn, ond selogion lleol. Byddai'n dda i'r Eisteddfod ymgynghori â selogion lleol i geisio gadael gwaddol penodol i hyrwyddo'r Gymraeg.

**Parhau i deithio**

Dyna pam mae'n allweddol fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn parhau i deithio trwy Gymru pob blwyddyn. Fel hyn mae angen i sefydliadau Fel canolfan dysgu Cymraeg genedlaethol, Yr Urdd, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin greu cysylltiadau dilynol gyda chymunedau sy'n cynnal yr Eisteddfod er mwyn I'r diddordeb dilynol hwnnw drosglwyddo at greu twf yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a chreu digwyddiadau rheolaidd trwy gyfrwng yr iaith er mwyn ei gwneud yn berthnasol i fywyd cymdeithasol ardaloedd sydd a llai o siaradwyr Cymraeg.

**Y Mentrau Iaith yn gatalydd**

Mae yma hefo rôl allweddol I'r Mentrau iaith fel bod yn gatalydd a chyd-gordiwr y broses o droi diddordeb yn weithredoedd ar lawr gwlad.

**Defnyddio'r dysgwyr fel ysgogwyr**

Efallai mai'r bobl orau i ganolbwyntio â'r di-Gymraeg yw cyfuniad o oedolion sydd wedi mynd ati i ddysgu'r iaith, rhieni di-Gymraeg sydd wedi penderfynu ar addysg Gymraeg i'w plant a brodorion sy'n siarad Cymraeg o'r cychwyn cyntaf ac sy'n adnabod eu milltir sgwâr yn dda iawn.

**Cynllun Noson Allan**

Hefyd mae manteisio eto ar Gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cynyddu niferoedd digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

**Trefn rhyngasiantaethol**

Ystyried sut orau i osod trefn safonol rhyngasiantaethol yn ei lle fydd yn sicrhau y gwaddol gorau posibl o ganlyniad I'r diddordeb newydd sy'n codi yn y Gymraeg fel nad yw'r cyfan yn dirwyn i ben heb arwain at weld twf ieithyddol. Nodwyd eisoes pa gyrff ddylai gyfrannu at hyn.

**Rôl i Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol**

Mae rôl bwysig hefyd i Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol ac yn benodol o gwmpas ysgolion Cymraeg ardal yr Eisteddfod er mwyn targedu rhieni di-Gymraeg, y disgyblion eu hunain a charedigion er mwyn creu momentwm a bwrlwm cymdeithasol trwy'r Gymraeg.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

**Cyllid a staff digonol**

Fel gydag unrhyw ymyrraeth ieithyddol rhaid wrth gyllid digonol i gyflogi staff mewn sefydliadau i ddylanwadu ar lawr gwlad. Y gwir amdani yw nad oes digon o weithlu yn nifer y Mentrau Iaith sy'n golygu bod criw bach yn ceisio dyrchafu'r iaith ar draws ardaloedd daearyddol mawr. I gael effaith gymunedol wirioneddol mae angen cynyddu gweithlu Mentrau Iaith sirol neu ardal a rhoi cyfrifoldeb penodol arnynt i adeiladu ar waith mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg.

**Dysgu hanes Cymru a'r Gymraeg**

Mae angen i'r Cwricwlwm Cenedlaethol roi lle teg i astudiaethau lleol yn ymwneud â hanes ac iaith, fel bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth o le'r Gymraeg yn hanes eu trefi a'u pentrefi. Bydd hyn yn ei dro'n cyfrannu at gynyddu diddordeb yn eu hunaniaeth a'u hiaith frodorol.

Mae angen targedu brodorion di-Gymraeg o ran hanes yr iaith a hanes Cymru a dysgu Cymraeg. Mae tueddiad i anghofio am y garfan hon a chanolbwyntio yn llwyr ar fewnfudwyr o Loegr. Yn genedlaethol, yn ôl Cyfrifiad 2021, gwelir bod 22% o'r trigolion yn enedigol o Loegr a 71% yn enedigol o Gymru (19% yn 2011 yn gallu'r Gymraeg ond nid yw pob un yn enedigol o Gymru, 'debyg). Cyhoeddwyd ystadegau gan Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2011 yn nodi mai ond 25% o fewnfudwyr i Wynedd aeth ati i ddysgu Cymraeg ac oddeutu 20% yng Ngheredigion.

**Datblygu strategaeth datblygu cymunedol**

Mae'r gymdeithas Gymraeg a fu'n draddodiadol yn yr ardaloedd hyn wedi dadfeilio. Mae'n anodd i siaradwyr Cymraeg ddod o hyd i'w gilydd. Mae nifer yr aelwydydd Cymraeg yn lleihau. Mae angen strategaeth datblygu cymunedol yn sail i lawer o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a

nodwyd gennym eisoes, fel bod awdurdodau lleol yn gallu creu eu rhaglen eu hunain ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn cymunedau.

**Defnyddio Safonau'r Gymraeg**

Mae angen gwneud defnydd o Safonau'r Gymraeg i hyrwyddo'r iaith. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i lunio rhaglen o hyrwyddo'r Gymraeg, fesul pum mlynedd, ond nid oes canllawiau penodol ar gyfer y rhaglenni hyn. Mae angen gosod safonau penodol, heriol a chreadigol fydd yn sicrhau bod gwaith cyson yn cael ei wneud ym maes datblygu'r Gymraeg yn iaith gymunedol.

**Lleoli adrannau'r Llywodraeth yn yr ardaloedd hyn**

Gwelwyd twf tra chadarnhaol yn niferoedd siaradwyr Cymraeg ardal Caerdydd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'r Gymraeg yno'n elwa ar newidiadau demograffig, gyda nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg yn symud i'r brifddinas. Mae hyn wedi digwydd am fod gan Gaerdydd nifer uchel o sefydliadau cyhoeddus a chenedlaethol: y Senedd, y BBC, CBAC, yr Urdd, Dysgu Cymraeg i Oedolion ac ati. Mae gan y sefydliadau hyn nifer cymharol uchel o swyddi Cymraeg a siaradwyr Cymraeg. Byddai'n dda lleoli rhai sefydliadau cenedlaethol mewn rhannau llai ffasiynol o'r Gymru lai Cymraeg, fel bod pobl ifanc yn cael gwaith yno gan beri newidiadau demograffig a fydd o fudd i'r Gymraeg.

**Gosod targedau i Lywodraeth Leol**

Fel gyda chynlluniau eraill sy'n gosod targedau i Lywodraeth Leol (e.e. CSGA), byddai'n fuddiol bod rhaglen genedlaethol cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn cael ei llunio. Byddai hon yn defnyddio cyfryngau cenedlaethol i hyrwyddo'r iaith, a gallai osod targedau penodol i Awdurdodau lleol, a allai gynnwys cynnal ymgyrchoedd yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd, annog dysgu Cymraeg, a phennu posibiliadau defnyddio'r iaith. Mae lle ar gyfer defnyddio adeiladau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd a neuaddau sir a chanolfannau hamdden, fel hybiau ar gyfer y Gymraeg. Gallai hyn gynnwys arddangosfeydd yn ymwneud â'r iaith yn y gwahanol ardaloedd, a rhoi lle i gynnal digwyddiadau a dosbarthiadau Cymraeg.

**Cyfleoedd gweithio trwy'r Gymraeg**

Fel rhan o'r rhaglen genedlaethol cynyddu defnydd o'r Gymraeg, byddai'n dda gosod targedau ar gyfer cyrff cyhoeddus o ran swyddi lle byddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel prif iaith gwaith, ac annog arferion ieithyddol cadarnhaol mewn gweithleoedd yn gyffredinol, yn enwedig mewn mannau lle mae cyswllt uniongyrch